# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 31AIN IONAWR 2018 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghŷd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), M. Williams (Pennaeth Eiddo Dros Dro), T. Broadhurst (Rheolwr Ystadau), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), D. Whetter (Pennaeth Adfywio Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Siaradwyr:

Y Cynghorydd N. Dix (Cynrychiolydd Ward Coed Duon) a'r Cynghorydd K. Etheridge (Cynrychiolydd Ward Coed Duon)

### 1. YMDDIHEURIADAU dros absenoldeb

Derbynwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol) a N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro ac S151).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Mrs B. Jones a N. George ddiddordeb yn yr eitem parthed Taliadau y Cyfrif Refeniw Tai - 2018/2019. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

### 3. CABINET - 13EG RHAGFYR 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg Rhagfyr 2017 (rhifau cofnod. 1 -7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL**

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/2017 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Cyngor, ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'w gyflwyno i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i gyhoeddi ar-lein.

Nododd y Cabinet fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar faterion Cydraddoldeb dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r adroddiad yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a gwella blynyddol.

O ganlyniad, mae'r swm o wybodaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau bod y corff rheoleiddio sy'n gysylltiedig (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn cael eu darparu gyda thystiolaeth lawn o gydymffurfiaeth ac ymrwymiad y Cyngor i'r dyletswyddau statudol hynny.

I grynhoi, gofynnwyd i'r Cabinet nodi, ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw; cyflwynwyd 370 o wersi i dros 9,000 o fyfyrwyr i ysgolion yn y fwrdeistref sirol o dan Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSLCP); defnyddiwyd £108,000 o arian i uwchraddio eiddo ar draws y fwrdeistref sirol, a oedd yn cynnwys -

- 1 Adeilad corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- 2 Leoliad Cefn Gwlad
- 3 Safle Gwasanaethau Cymdeithasol
- 2 Ganolfan addysg gymunedol
- 4 Canolfan hamdden
- 18 Ysgol
- 1 Safle twristiaeth

Yn ogystal, lansiodd Alun Davies, AC, y Strategaeth Iaith Gymraeg ym mis Mehefin yn Ffiliffest, crëwyd Grwp Ieuenctid LHDTC + a nodwyd fel un o flaenoriaethau'r Fforwm Ieuenctid ac ar hyn o bryd mae 36 o bobl ifanc yn mynychu. Yn olaf, nododd yr Aelodau mai Amgueddfa'r Tŷ Weindio oedd yr amgueddfa gyntaf yng Nghymru i gael ei chdnabod fel Dementia Cyfeillgar ynghyd â Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a chynhaliwyd trafodaeth o amgylch Meincnodi Stonewall, dolenni i Gydlyniant Cymunedol a chydnabyddiaeth am y gwaith a wneir o gwmpas Cymunedau Dementia Cyfeillgar. Esboniodd swyddogion, er bod y cyflawniadau wedi'u dogfennu, y byddent yn bresennol yn yr adroddiad nesaf, ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i nodi a chyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i gyhoeddi ar y rhyngrwyd.

**5. TALIADAU CLADDU PLANT**

Gofynnodd yr adroddiad farn y Cabinet ar fabwysiadu Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth (MoG) yn ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru ar draws Cymru fel y'i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae'r MoG yn nodi ymagwedd gyson mewn perthynas â thaliadau claddu plant.

Cyfeiriwyd at yr ymgyrch ddiweddar a arweinwyd gan Carolyn Harris (AS Dwyrain Abertawe) i ddileu taliadau a osodir gan Awdurdodau lleol ar gyfer claddu ac amlosgi plant.

O ganlyniad, ar 1 Chwefror 2017, penderfynodd y Cabinet i gael gwared â'r tâl claddedigaeth ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, 16 oed. Fodd bynnag, byddai costau ynghlwm wrth brynu Hawliau Claddu Eithriadol (HCE) os dewiswyd gan y teulu sydd mewn profedigaeth.

Penderfynodd y Cabinet ar 18 Hydref 2017 fod yr Awdurdod yn ymrwymo i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar ffurfio'r MoG lle mae awdurdodau claddu yn darparu ymrwymiad i beidio â chodi unrhyw taliadau mewn perthynas â chladdiad neu amlosgiad plentyn safonol sydd wedi'i ddiffinio fel person dan 18 oed. Mae'r adroddiad hwn nawr yn nodi'r manylion yn hyn o beth.

Nododd y Cabinet fod yr MoG yn nodi ymagwedd gyson yn y ffaith bod plentyn yn cael ei ddiffinio fel person dan 18 oed. Mae'n rhoi ymrwymiad y caiff yr holl taliadau safonol y gall Awdurdod claddu neu amlosgi godi mewn perthynas â hyn gael eu hepgor, fel yr amlinellir isod:

(i) Amlosgiad person dan 18 oed;
(ii) Claddedigaeth person dan 18 oed;
(iii) Hawliau Claddu Unigryw (HCU) lle bo angen;
(iv) Unrhyw taliadau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chladdu neu amlosgi person dan 18 oed fel taliadau i godi cofeb er enghraifft.

Nodwyd nad yw'r MoG yn ben-agored yn nhermau ei hyd a bod cyfnod adolygu dwy flynedd wedi'i gynnwys. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru arsylwi ar yr effaith ymarferol os gweithredir y MoG ac i gofnodi unrhyw adborth, llwyddiannus neu fel arall, i'r broses.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth, fel y'i atodir i'r adroddiad, yn ffurfiol am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion.

## 6. TIR YN NHERAS PLASTURTWYN, LLANBRADACH

Gofynnodd yr adroddiad am gyfarwyddiadau'r aelodau mewn perthynas â gwaredu tir yn Nheras Plasturtwyn, Llanbradach.

Nodwyd, ym 1997, bod y tir yn Nheras Plasturtwyn, Llanbradach wedi'i ddatgan yn weddill i'r gofyniad, daeth yn amlwg wrth ddyfodiad Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004) y byddai'r safle yn anodd ei ddatblygu ac fe gafodd y cynnig ei roi o'r neilltu.

Dros amser, mae'r safle wedi cael ei ailystyried yn weithredol a chafodd y rhwystrau eu datrys a, gyda'r angen am dai fforddiadwy yn cael ei nodi, mae cynnig yn cael ei wneud gyda Chymdeithas Tai Unedig Cymru (CTUC) (ein partner cymdeithas tai wedi'i leoli).

Yn ogystal, nodwyd bod trigolion Lleol wedi cyflwyno deiseb gan gofrestru diddordeb mewn prynu rhan o'r tir at ddibenion modurdai a pharcio.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer y safle:

1. I negodi gwarediad yn uniongyrchol gyda CTUC, ac os felly gallai tai fforddiadwy fod hyd at 100%. Yn y senario hon, oherwydd bod CTUC wedi bod yn paratoi cynnig, sefydlwyd na ellir cynnwys dymuniad trigolion i brynu rhan o'r tir at ddibenion modurdai a pharcio gan fod y lleihad yn arwynebedd y lleoliad yn golygu nad yw'r cynllun presennol yn ddibynadwy.

2. I roi'r safle ar y farchnad gyda'r bwriad o gael derbynneb cyfalaf; yn yr opsiwn hwn, bydd tai fforddiadwy yn gyfyngedig i uchafswm o 40% (fel y cyfeirir ato yn y Canllawiau Cynllunio Atodol LDP1 - Rhwymedigaethau Tai Fforddiadwy Gorffennaf 2017). Fodd bynnag, gallai dymuniad trigolion i brynu rhan o'r tir at ddibenion modurdai a pharcio fod yn bosib gan y bydd y safle a gynigir i'w werthu yn eithrio'r rhan honno (gyda gostyngiad canlyniadol yn y pris prynu).

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad a holwyd am nifer y lleoedd parcio a fyddai'n cael eu neilltuo i breswylwyr. Eglurodd y swyddogion y byddai hyn yn fater i'w ystyried fel rhan o'r Cais Cynllunio.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) trosglwyddir y tir (fel y dangosir o fewn ymylon du ar y cynllun fel y'i atodir i'r adroddiad, ac eithrio ar gyfer ardal sy'n cynrychioli llain bridwerth i'w nodi gan y Pennaeth Eiddo Dros Dro), ar delerau i'w cytuno, i CTUC ar gyfer datblygu tai fforddiadwy, ar delerau i'w negodi;

(ii) bod swyddogion yn sicrhau bod darpariaeth parcio ar gyfer preswylwyr Teras Plasturtwyn yn cael ei darparu o fewn y safle datblygu;

(iii) bod cymeradwyaeth o delerau manwl y trosglwyddiad yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro ar y cyd â'r Aelod Cabinet Cartrefi a Lleoedd.

## 7. TIR YN HEOL Y CORONI DWYREINIOL LÔN DREFOL COED DUON

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd N. Dix a'r Cynghorydd K. Etheridge, Cynrychiolwyr Ward Coed Duon, a ofynnodd i siarad am yr eitem.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i'r egwyddor o waredu tir rhwng Heol y Coroni a Heol Lilian, Coed Duon i'r Grŵp Pobl.

Nodwyd, ym mis Chwefror 2013, bod y tir y tu ôl i Heol Lillian, Coed Duon wedi ei ddatgan yn weddill i'r gofyniad. Wrth nodi bod Swyddogion wedi nodi'r angen am dai fforddiadwy, mae cynnig ar gyfer y safle yn cael ei baratoi gyda Pobl (ein Partner Cymdeithas Tai).

Gwahoddwyd y Cynghorydd N. Dix i annerch y Cabinet.

Nododd y Cabinet, er bod y Cynghorydd Dix yn cefnogi bod tir yn cael ei werthu ar gyfer defnydd Tai Cymdeithasol, nid yw'r darn penodol o dir yma yn addas ar gyfer tai. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod mynediad i'r safle drwy lôn gul ac mae'r safle ei hun yn wlyb a chorsiog ac yn gartref i madfallod. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried barn trigolion lleol a bod y tir sy'n weddill at ddefnydd y Gymuned.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Dix a gwahoddodd y Cynghorydd Etheridge i annerch y Cabinet.

Nodwyd bod 16 gwrthwynebiad wedi eu derbyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, ynghyd â deiseb wedi'i lofnodi gan 39 o drigolion yn yr ardal leol.

Gofynnodd y Cynghorydd Etheridge i'r Cabinet ystyried gohirio'r adroddiad, ac ystyried y trafodaethau a'r negodi a wneir gyda Phobl, cyn cymeradwyaeth gan y Cabinet. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod Cais Cynllunio wedi'i gyflwyno gan Pobl ar gyfer datblygiad ar y safle.

Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu sylwadau a bu trafodaeth i ddilyn.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ar y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Phobl. Sicrhaodd swyddogion wrth yr Aelodau fod trafodaethau rhagarweiniol wedi'u cynnal mewn perthynas â'r safle, a ystyrir fel arferiad normal. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y Cais Cynllunio a gyflwynwyd, wedi'i wneud o dan risg y Gymdeithas Tai ei hun.
Wrth gyfeirio at y pryderon a godwyd am fywyd gwyllt ar y safle, gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod ecolegydd wedi edrych eto ar y safle ac mae'r boblogaeth ymlusgiaid wedi symud, felly ni fyddai hyn yn effeithio ar y cais.

Ymdriniodd y swyddogion â'r pryderon a amlygwyd o ran mynediad i'r safle a sicrhawyd yr Aelodau, pe bai mynediad yn anaddas yn ystod y cam Cynllunio, na fyddai'r datblygiad yn mynd rhagddo.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i drosglwyddo'r tir (a ddangosir ag ymyl du ar y cynllun gyda'r adroddiad) ar delerau i'w cytuno, i'r Grŵp Pobl;

(ii) bod telerau trosglwyddo manwl yn cael eu dirprwyo i Bennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro ar y cyd â'r Aelod Cabinet Cartrefi a Lleoedd;

(iii) os na ellir cytuno ar delerau, dylid cyflwyno adroddiad pellach yn nodi'r opsiynau ar gyfer ystyriaeth Aelodau.

**8. Y DIWEDDARAF AR GRONFEYDD WRTH GEFN**

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar yr 16eg o Ionawr 2018, yn darparu manylion o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ac yn ystyried cynigion er defnydd y cronfeydd wrth gefn mewn rhai meysydd.

Mae'r Atodiad i'r adroddiad yn dangos balans agoriadol mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar 1af Ebrill 2017 o £120,576m, sy'n unol â'r Datganiadau Ariannol archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

Hysbyswyd yr Aelodau y rhagwelir y bydd y balans ar y Gronfa Gyffredinol yn £13,131m ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn uwch na'r isafswm lefel ddarbodus o £10m a argymhellir yn flynyddol gan y Swyddog Adran 151. Bydd y balans a ragwelir yn cael ei adolygu eto pan gyflwynir cynigion cyllideb 2018/19 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2018, a gwneir argymhellion ar y pryd o ran defnyddio unrhyw balans uwchlaw'r lefel isafswm o £10m a argymhellir.

O ran cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y rhain wedi'u neilltuo ac na ellir eu trosglwyddo i Falansau Cronfa Gyffredinol. Y balans a ragamcenir ar gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy CRT oedd £16,821m ar 1af Ebrill 2017 a bydd llawer o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Y balans ar Gronfeydd Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2017 oedd £37,709m ac mae hyn wedi'i neilltuo ar gyfer Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod. Cafodd aelodau eu cynghori bydd y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn destun adolygiad manwl dros y misoedd nesaf a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu maes o law.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddiwyd mewn cronfeydd defnyddiadwy ar gyfer pob Cyfadran (£29,633m ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, £3,285m ar gyfer Cymunedau, £8,284m ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes a £7,011m ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Diogelwch y Cyhoedd a Pholisi Corfforaethol). Atgoffwyd

yr aelodau o'r polisi a gytunwyd yn flaenorol gan y Cabinet, lle mae meysydd gwasanaeth yn cadw 50% o'r tanwariant a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd wedi arwain at berchnogaeth ac atebolrwydd llawn gan ddeiliaid cyllideb mewn perthynas â chyflwyno cyllideb gytbwys. Cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn yng Ngorffennaf 2016 a oedd yn cynnwys cyflwyno cap ar y swm cronnus y gellir ei ddal gan Gyfadrannau mewn cronfeydd tanwariant gwasanaeth. Yn gynwysiedig yn yr adroddiad roedd manylion y gyllideb ar gyfer 2017/18 ar gyfer pob Cyfadran a'r gweddill ar gyllidebau tanwariant ar 1af Ebrill 2017 ac a oedd y cap wedi mynd heibio yn yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau y cronfeydd wrth gefn danwariant ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol (£0.769m) ac Addysg a Dysgu Gydol Oes (£0.381m) a gofynnwyd iddynt ystyried y cynigion a gynhwysir yn yr adroddiad i ddefnyddio'r symiau hyn neu eu cadw. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar y gorwariant net rhagamcanol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol/Diogelwch y Cyhoedd ac Eiddo Corfforaethol yn deillio o gynyddu'r galw am wasanaethau, ac amlinellodd gynigion i sefydlu cronfeydd wrth gefn penodol a ariennir o'r Gronfa Tanwariant Wrth Gefn ac i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yng Nghronfa Wrth Gefn Menter Gwasanaethau Cymdeithasol i wrthbwyso'r gorwariant hyn yn rhannol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a gofynnodd am eglurhad ar y sylwadau a dderbyniwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dal y cronfeydd wrth gefn uchaf yng Nghymru. Nid oedd swyddogion yn gallu egluro hyn heb ystyried cronfeydd wrth gefn Awdurdodau eraill ond, sicrhaodd yr Aelodau nad yw CBS Caerffili yn dal unrhyw gronfeydd diangen. Yn ychwanegol, nodwyd bod y cyfrifon wedi eu hystyried gan Swyddog Archwilio Cymru, ac nad ydynt wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch y lefelau a gedwir ar hyn o bryd wrth gefn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i nodi'r adroddiad;

(ii) y cronfeydd tanwariant cronedig uwchben cap 3% ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol ac Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cael ei ddefnyddio fel y manylir yn 4.9.2 o'r adroddiad;

(iii) dylid sefydlu cyfanswm o £711k o gronfeydd wrth gefn penodol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol fel y manylir arnynt ym mharagraff 4.9.3 o'r adroddiad;

(iv) rhyddhau cyllid o £508k o Fenter Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Cronfeydd wrth gefn i wrthbwyso'r gorwariant cyllideb refeniw disgwyliedig yn rhannol ar gyfer 2017/18 (fel y manylir ym mharagraff 4.9.4 yr adroddiad).

## 9. TALIADAU'R CYFRIF REFENIW TAI - 2018-2019

Datganodd y Cynghorydd Mrs B. Jones ddiddordeb yn yr eitem hon, fel Tenant y Cyngor ac fel Cynghorydd Datganodd N. George ddiddordeb gan ei fod yn rhentu modurdy o'r Awdurdod. Gadawodd y ddau Aelod y cyfarfod yn ystod yr eitemau a ystyriwyd.

Yr adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 16 Ionawr 2018, derbyniodd manylion ar gyfer taliadau uwch arfaethedig y bwriedir iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y flwyddyn ariannol 2018/19.

Crynhowyd y broses sy'n gysylltiedig â pharatoi'r gyllideb CRT gan Swyddogion. Nododd y Cabinet fod Polisi newydd Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yn gosod band rhent targed ar gyfer pob Awdurdod lle mae'n rhaid i gynghorau addasu rhenti cyfartalog ar gyfer eu heiddo yn unol â'r bandiau hyn. Mae'r cynnydd ar y polisi rhent newydd

yn sefydlog am bum mlynedd ac yn defnyddio ffigwr chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) y mis Medi blaenorol (yn hytrach na ffigwr chwyddiant Mynegai Prisiau Masnachwyr ) ac mae hefyd yn cynnwys cynnydd gwirioneddol o 1.5% at rent awdurdod lleol cyfartalog. Ffigwr MPD y mis Medi blaenorol oedd 3%. Cyhoeddodd LlC y byddai'r cynnydd mewn rhenti ar gyfer 2018/19 yn o leiaf 4.5%, sef MPD o 3% a 1.5%. Mae'r cynnydd hwn wedi ei ychwanegu at y rhent cyfartalog yn golygu bod Cyngor Caerffili o fewn pen isaf y rhent targed.

Er mwyn cydymffurfio â'r polisi rhent, yr isafswm cynnydd y gellir ei ddefnyddio er mwyn aros yn y gorchudd rhent yw 3.6%, ac oherwydd trefniant amddiffyn trosiannol sydd ar waith, y cynnydd rhent uchaf y gellir ei ddefnyddio gan yr Awdurdod yw 6.5%. Fodd bynnag, argymhellwyd cynnydd o gyn lleied a 4.5% i leihau'r risgiau ariannol ychwanegol o fewn cynllun busnes y Cyngor o 2019/2020 ymlaen. Felly, gofynnwyd i'r Aelodau argymell i'r Cabinet lefel y cynnydd fesul eiddo o fis Ebrill 2018 yn seiliedig ar yr opsiynau yn yr adroddiad (3.6%, 4.5% neu 6.5%). Amlygwyd yr holl daliadau perthnasol yn yr adroddiad a nododd y byddai swm yr incwm ychwanegol yn cael ei gynhyrchu (ac eithrio lleoedd gwag) ar gyfer pob un o'r lefelau cynnydd arfaethedig, ynghyd â chanran y defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn budd-dal tai. Mae angen yr incwm cynyddol i wrthbwyso codiadau chwyddiant eraill o fewn y maes gwasanaeth a chefnogi cyflwyno'r holl wasanaethau sy'n ymwneud â thai, gan gynnwys cyflwyno'r rhaglen SATC.

Hefyd, rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad mewn perthynas â thaliadau garejys a nodwyd nad yw'n bwriadu cynyddu'r rhent ar garejys sy'n eiddo i'r Cyngor eleni. Mae hyn oherwydd y rhaglen resymoli ac adnewyddu garejys parhaus, sy'n cael effaith sylweddol ar rai tenantiaid wrth ystyried cynnydd posibl mewn meysydd eraill (megis y dreth cyngor). Cadarnhaodd y swyddogion y bydd y tenantiaid hynny sy'n derbyn budd-daliadau tai yn cael y cynnydd a ymgorfforir yn eu lwfans, a bod Tîm Tai y Cyngor yn gallu cynnig cefnogaeth i'r tenantiaid hynny nad ydynt yn derbyn budd-daliadau tai a allai fod yn cael anawsterau ariannol.

Diolchodd Aelodau'r Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Mynegodd Aelod bryderon am y broses a wnaed ar gyfer adnewyddu a dymchwel garejys. Esboniodd swyddogion fod oedi annisgwyl wedi bod, ac efallai y byddai'r broses wedi bod yn fwy effeithlon, fodd bynnag, sicrhawyd yr Aelodau bod contractau bellach wedi'u dyfarnu a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau ddiwedd mis Ebrill.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion ac wrth ystyried yr argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, y bydd yr isafswm o gynnydd o 3.6% i osod rhenti ar waelod absoliwt y gorchudd rhent ond nid lefelau rhent disgwyliedig y rhagwelir o 2019/20 ymlaen, yn gymwys o fis Ebrill 2018.

**ARGYMHELLION I'R CYNGOR**

**10. DIWYGIADAU I AWDURDODIAD SWYDDOGION O FEWN ADRAN DIOGELU'R CYHOEDD**

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i swyddogion yr Adran Diogelu'r Cyhoedd cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor i gynnwys Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Nododd yr aelodau fod Swyddogion o fewn yr Adran Diogelu'r Cyhoedd yn gofyn am awdurdodiad ychwanegol o dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â nifer o bryderon iechyd cyhoeddus penodol, ac i greu amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i iechyd da a lle gellir atal niwed y gellir eu hosgoi. Mae'n

cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynhyrchion gordewdra, tybaco a nicotin, gweithdrefnau arbennig (aciwbigo, tyllu corff, electrolysis, tatŵio), tyllu mewn rhan bersonol o'r corff, asesiadau o effaith ar iechyd, gwasanaethau fferyllol a thoiledau ar gyfer y cyhoedd. Mae yna ddyddiadau cychwyn ar gyfer y Rhannau gwahanol o'r Ddeddf a fydd yn cael eu gorfodi/eu gweithredu gan amrywiaeth o sefydliadau. Mae Rhannau'r Ddeddf sy'n gyfrifoldeb gorfodi yr awdurdod lleol yn cynnwys Rhan 5 Tyllu mewn rhan bersonol o'r corff, Rhan 4 Gweithdrefnau Arbennig a Rhan 3 nwyddau Tybaco a Nicotin.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) nodi'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth gan y Cabinet a chyfeirio'r newidiadau i'r Cyngor i'w penderfynu;

(ii) bod Cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Cyngor yn cael eu diwygio drwy ychwanegu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

(iii) bod Swyddogion o fewn yr Adran Diogelu'r Cyhoedd yn cael eu hawdurdodi o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a gweithredu eu dyletswyddau.

**EITEMAU WEDI EU HEITHRIO**

Ystyriodd yr Aelodau brawf lles y cyhoedd a daethant i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad, ar y cyfan, yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth ac fe: -

BENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 11. GWAREDU TIR YN LLWYFANDIR DATBLYGU BARGOD I MARSTONS PLC.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i waredu tir sy'n eiddo i'r Cyngor yn Llwyfandir Datblygu Bargod er mwyn i Marstons PLC darparu ar gyfer datblygiad tafarn/bwyty.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog i gymeradwyo'r argymhellion yn 10.1 o'r adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.31 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhalir ar 14eg Chwefror, 2018.

________________________
CADEIRYDD